Eitem ar yr agenda: 6

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**Y PANEL GWEITHREDOL**

23 CHWEFROR 2004

**MESUR Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr adroddiad**

**1** Rhoi rhagor o ystyriaeth i'r Mesur a chytuno ar ba ffordd i lobïo.

**Cefndir**

**2** Cyhoeddwyd y Mesur fymryn cyn y cyfarfod diwethaf o'r Panel. Tra roedd y Panel yn gallu ystyried rhai agweddau arno, gofynnodd am adroddiad llawn ar gyfer y cyfarfod hwn.

**Cyngor**

**3** Y materion allweddol o ran egwyddor i'w hystyried, yw swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol, a'r pwerau lawer o ran cyfarwyddo ac ymyrryd a roddir gan y Mesur i'r llywodraeth ganolog.

<u>Swyddogaeth y Cynulliad (gweler y sylwadau ar gymalau 27, 31 a 59 ac Atodlen 1 yn yr atodiad)</u>

**4** Mae Cymal 59(1) o'r Mesur yn darparu bod y Cynulliad yn cael y swyddogaethau o ran Cymru sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr.

**5** Fodd bynnag, mae'r Cynulliad hefyd yn cael y pwerau yn Rhan 4 (cyflogaeth) o'r Mesur. Yn ôl y nodiadau esboniadol, nid yw'r Cynulliad i fod i gael y pwerau o ran "pensiynau (cymalau 33 i 35) a darpariaethau canlyniadol". Rwy'n awgrymu y bydd y Panel efallai'n dymuno holi a ddylai'r Cynulliad gael unrhyw un o'r pwerau sydd yn Rhan 4, fyddai'n caniatáu i'r Cynulliad sefydlu corff negodi ar wahân ar gyfer Cymru. (Os mai dyna'r bwriad dylai'r Cynulliad hefyd gael y pwerau sydd yn Neddf Gwasanaethau Tân 2003 - nid yw.)

**6** Mae cwestiynau pwysig i'w codi o ran gwerth gorau. Fel y mae wedi ei ddrafftio, mae'r Mesur yn diwygio deddfwriaeth llywodraeth leol fel petai'r Ysgrifennydd Gwladol yn dal yn mynd i fod yn gyfrifol am weithrediad y gyfundrefn gwerth gorau o safbwynt awdurdodau tân yng Nghymru. Mae'r awdurdod tân yn dymuno dod o fewn Rhaglen Wella Cymru. Felly, gwahoddir y Panel i gefnogi'r sylwadau ar baragraffau 85, 95 a 96 o

Atodlen 1, sy'n ceisio cael y Mesur i ddangos yn glir y sefyllfa o ran gwerth gorau.

**7** Fel y mae wedi ei ddrafftio, byddai'r Mesur yn caniatáu i'r Cynulliad gyfuno awdurdodau tân trwy bleidlais fwyafrifol syml ac i benodi rhai o aelodau yr awdurdodau tân. Awgrymir bod y Panel yn gofyn am ddiwygio'r Mesur i eithrio y pŵer ar gyfer y Cynulliad i benodi aelodau awdurdodau tân, ac bod unrhyw orchymyn Cynulliad fyddai'n cyfuno awdurdodau tân i fod yn amodol ar o leiaf 2/3 o fwyafrif (sef yr hyn sydd ei angen i newid rheolau sefydlog y Cynulliad!). Gweler yr ail sylw ar gymal 59(2).

**8** Yn olaf, mae rhai mân bwyntiau i'w codi o safbwynt ai'r bwriad yw y dylai'r Cynulliad greu arolygiaeth tân ar wahân (cymal 27), i drin Gweinidogion y Cynulliad yn yr un ffordd â Gweinidogion y Goron (cymal 31) a pheidio gwneud y Fframwaith Cenedlaethol i Gymru yn gaeth i weithdrefnau Seneddol (sylw cyntaf ar gymal 59(2)).

<u>Pwerau cyfarwyddyd ac ymyrryd</u>

**9** Nid yw'r sylwadau yn yr atodiad yn ymdrin ag a ddylid gwrthwynebu'r pwerau fel mater o egwyddor. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn lobïo'n galed i gael gwared ar y nodweddion "canoli" hyn, gan gynnwys cymalau 10, 11, 16 ac 17. Mae angen i'r Panel ystyried a yw'n cefnogi'r galwadau hyn. Heb ystyried y mater o egwyddor, mae pwyntiau manwl i'w codi ar y gwaith drafftio a gweithredu'r pwerau cyfarwyddyd ac ymyrryd, o safbwynt sicrhau bod gofyniad cyson ar gyfer ymgynghori a'u gweithredu'n llwyddiannus mewn cyd-destun trawsffiniol (gweler y sylwadau ar gymalau 9,10 ac 14).

<u>Pwyntiau eraill</u>

**10** Mae'r atodiad yn codi sawl pwynt arall gan gynnwys nifer o feysydd lle mae gwaith llunio'r Mesur naill ai'n ddiffygiol neu'n aneglur. Gallaf fynd â'r aelodau drwy'r manylion hyn yn fanwl. Rwy'n tynnu sylw'n arbennig at:

**10.1** cymal 19: dylai'r awdurdod tân gael y pŵer i godi tâl am ymateb i larymau tân awtomatig lle nad oes tân, a dylid ymdrin â hyn yn y rheoliadau sy'n destun papur ymgynghorol ar wahân;

**10.2** cymal 47: dylai unrhyw alwad ffug i awdurdod tân fod yn drosedd, nid dim ond galwad ffug am dân;

**10.3** darpariaeth heb ei gynnwys yn y Mesur: y pŵer i ddarparu ar gyfer bod lwfansau i aelodau awdurdodau tân i fod yn bensiynadwy.

**Argymhelliad**

**11** Bod y Panel Gweithredol yn

**11.1** ystyried Mesur y Gwasanaethau Tân ac Achub;

**11.2** cymeradwyo cyflwyno'n ffurfiol sylwadau i'r ODPM fel y maent yn yr atodiad, yn amodol ar unrhyw newidiadau mae'n dymuno eu gwneud;

**11.3** penderfynu sut arall mae'n dymuno lobïo.